

# Polisi Chwythu'r Chwiban

|                                       |                                                                                                                                                                                                                                                              |
|---------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Fersiwn y Cynllun:</b>             | Fersiwn 3                                                                                                                                                                                                                                                    |
| <b>Rhif Drafft:</b>                   | Terfynol                                                                                                                                                                                                                                                     |
| <b>Cadarnhawyd y Cynllun gan:</b>     | Y Cyngor                                                                                                                                                                                                                                                     |
| <b>Dyddiad Cadarnhau:</b>             | 18 Tachwedd 2014                                                                                                                                                                                                                                             |
| <b>Dyddiad Dod â'r Cynllun i Rym:</b> | 18 Tachwedd 2014                                                                                                                                                                                                                                             |
| <b>Dyddiad Adolygu:</b>               | 2021                                                                                                                                                                                                                                                         |
| <b>Yn berthnasol i:</b>               | Holl weithwyr Caerffili. Os ydych yn wirfoddolwr neu'n contractwr sy'n gweithio ar safleoedd y Cyngor, gan gynnwys adeiladwyr, gyrwyr a chyflenwyr, dylech fynegi eich pryderon o dan Bolisi Cwynion Corfforaethol y Cyngor, sydd ar gael ar wefan y Cyngor. |
| <b>Materion Cydraddoldeb:</b>         | Mae'r holl ystyriaethau Cydraddoldeb wedi cael eu hystyried wrth ddrafftio'r Cynllun hwn.                                                                                                                                                                    |

Ymgynghorwyd ag undebau llafur cydnabyddedig y Cyngor ar y Cynllun hwn.



## MYNEGAI

| ADRAN                                                     | TUDALEN |
|-----------------------------------------------------------|---------|
| <a href="#"><u>Cyflwyniad</u></a>                         | 3       |
| <a href="#"><u>Beth y Mae'r Cynllun yn Ei Gwmpasu</u></a> | 3       |
| <a href="#"><u>Manylion y Cynllun</u></a>                 | 3       |
| <a href="#"><u>Dehongliad o'r Cynllun</u></a>             | 6       |
| <a href="#"><u>Adolygiad o'r Cynllun</u></a>              | 6       |
| <a href="#"><u>Atodiad</u></a>                            | 7       |

## CYFLWYNIAD

- 1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymrwymo'n llawn i redeg y sefydliad yn y ffordd orau posibl ac i wneud hynny, mae arnom angen eich cymorth chi. Rydym wedi cyflwyno'r polisi hwn i'ch sicrhau ei bod yn ddiogel ac yn dderbyniol codi llais, ac i'ch galluogi i fynegi unrhyw bryderon a allai fod gennych am achos o gamymddwyn, a hynny mewn modd prydlon a chywir.
2. Mae gennym ni i gyd, ar ryw adeg neu'i gilydd, bryderon am yr hyn sy'n digwydd yn y gwaith. Fel rheol, caiff y rhain eu datrys yn rhwydd. Ond pan fydd y pryder yn teimlo'n ddifrifol, am ei fod yn ymwneud â thwyll, perygl neu gamymddwyn posibl a allai effeithio ar bobl eraill neu ar y sefydliad ei hun, gall fod yn anodd gwybod beth i'w wneud.

## YR HYN Y MAE'R CYNLLUN YN EI GWMPASU

3. Mae'r polisi hwn yn cwmpasu unrhyw ddatgeliadau y mae cyflogeion yn eu gwneud ynghylch achosion o gamymddwyn honedig. Rhaid darllen y polisi ar y cyd â holl bolisiau a gweithdrefnau perthnasol y Cyngor, yn enwedig Cod Ymddygiad y Cyngor.

## MANYLION Y CYNLLUN

4. Nod y Polisi Chwythu'r Chwiban yw eich sicrhau ei bod yn ddiogel ac yn dderbyniol codi llais, a'ch galluogi i fynegi pryderon difrifol sydd gennych am achos o gamymddwyn, a hynny mewn modd prydlon a chywir.
5. Os byddwch yn mynegi pryder gwirioneddol mewn perthynas â'r polisi hwn, ni fyddwch, o ganlyniad, mewn perygl o golli eich swydd nac o ddioddef o unrhyw fath o driniaeth niweidiol.
6. Mae'r polisi wedi'i fwriadu'n benodol ar gyfer mynegi pryderon ynghylch achosion o gamymddwyn. Fodd bynnag, os ydych am wneud cwyn am eich cyflogaeth neu'r modd yr ydych wedi cael eich trin, defnyddiwch y weithdrefn gwyno – gellir cael copïau gan eich Rheolwr neu o'r Porth Cymorth AD.
7. Mae'r polisi'n rhoi ffordd i chi fynegi eich pryderon a chael adborth ar unrhyw gamau a gymerir. Darperir unrhyw adborth oddi mewn i gyfyngiadau Deddf Diogelu Data 2018

## CATEGORïAU O GAMYMDDWYN

8. Rydych yn cael eich diogelu o dan y polisi hwn i fynegi unrhyw bryderon a allai fod gennych am y categorïau canlynol o gamymddwyn:
  - Troseddau, gan gynnwys ymddygiad sy'n drosedd, neu sy'n torri'r gyfraith, neu sy'n cam-drin cleientiaid yn rhywiol neu'n gorfforol;
  - Diffyg cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau cyfreithiol, gan gynnwys defnyddio arian cyhoeddus heb awdurdod, achosion posibl o dwyll a llygredigaeth; gwahaniaethu yn erbyn y cyhoedd neu gyd-weithwyr (e.e. ar sail hil, oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol.)
  - Camweinyddu cyfiawnder;
  - Peryglon i iechyd neu ddiogelwch, gan gynnwys risgiau i'r cyhoedd yn ogystal â gweithwyr eraill;
  - Perygl neu ddifrod i'r amgylchedd neu
  - Guddio unrhyw un o'r categorïau uchod yn fwriadol.
9. Gellir defnyddio'r polisi hefyd i adrodd am rywbeth sydd:
  - Yn gwneud i chi deimlo'n anghyfforddus o ran y safonau yr ydych yn credu y mae'r Cyngor yn eu harddel;
  - Yn erbyn Cyfansoddiad a pholisiau'r Cyngor;

- Yn cwmpo islaw safonau ymarfer sefydledig neu
- Yn gyfystyr ag ymddygiad amhriodol.

## **EIN SICRWYDD I CHI**

10. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymrwymo i'r polisi hwn. Os byddwch yn mynegi pryder gwirioneddol mewn perthynas â'r polisi hwn, ni fyddwch, o ganlyniad, mewn perygl o golli eich swydd nac o ddioddef o unrhyw fath o driniaeth niweidiol. Ni fydd y Cyngor yn goddef erlid nac aflonyddu ar y sawl sy'n mynegi pryder gwirioneddol a bydd erlid y sawl sydd wedi mynegi pryder gwirioneddol yn cael ei ystyried yn fater disgyblu.
11. Gyda'r sicrwydd hwn, gobeithiwn y byddwch yn mynegi eich pryder yn agored. Fodd bynnag, yr ydym yn deall y bydd amgylchiadau pan fyddai'n well gennych siarad yn gyfrinachol â rhywun yn gyntaf. Os dyna'r sefyllfa, dywedwch hynny ar y dechrau.
12. Os byddwch yn gofyn i ni beidio â datgelu pwy ydych, ni fyddwn yn gwneud hynny heb eich cydsyniad oni fydd yn ofynnol gan y gyfraith. Dylech ddeall y bydd adegau efallai pan na fyddwn yn gallu datrys pryder heb ddatgelu pwy ydych chi, er enghraifft, os bydd eich tystiolaeth bersonol yn hanfodol. Mewn achosion o'r fath, byddwn yn trafod â chi a ddylid symud ymlaen â'r mater a'r ffordd orau o wneud hynny.

## **HONIADAU DIENW**

13. Mae'r polisi'n eich annog i roi eich enw wrth eich honiad lle bydd hynny'n bosibl. Heb wybod pwy ydych, bydd yn llawer anoddach i ni ymchwilio i'r mater. Ni fyddwn yn gallu diogelu eich swydd na rhoi adborth i chi. Yn unol â hynny, ni ddylech dybio y gallem roi'r sicrwydd a gynigiwn yn yr un ffordd os ydych yn mynegi pryder yn ddienw.
14. Os ydych yn ansicr ynghylch mynegi pryder, gallwch gael cyngor annibynnol gan Public Concern at Work (gellir dod o hyd i'r manylion cyswllt o dan yr adran, Cyngor Annibynnol).

## **HONIADAU CELWYDDOG**

15. Os byddwch yn gwneud honiad yn ddiwyll ond na chaiff ei gadarnhau gan yr ymchwiliad, ni chymerir unrhyw gamau yn eich erbyn. Ar yr amod eich bod yn mynegi pryder gwirioneddol, nid oes gwahaniaeth os ydych wedi camgymryd. Wrth gwrs, nid ydym yn cynnig y sicrwydd hwn i rai sy'n codi mater mewn modd maleisus gan wybod ei fod yn anwir.
16. Os gwnewch honiad mewn modd maleisus neu er budd personol, gallai camau disgyblu gael eu cymryd yn eich erbyn.

## **MYNEGI PRYDER**

17. Nid oes angen i chi fod â thystiolaeth bendant o gamymddwyn cyn mynegi pryder. Fodd bynnag, gofynnwn i chi esbonio, mor llawn ag y gallwch, yr wybodaeth neu'r amgylchiadau a arweiniodd at eich pryder.
18. Os bydd gennych bryder ynghylch camymddwyn, y cam cyntaf yw mynegi'r pryder i'ch Rheolwr neu i'ch Arweinydd Tîm. Gallwch wneud hynny ar lafar neu'n ysgrifenedig. Deallwn y bydd y gallu i fynegi pryderon yn y modd hwn yn dibynnu ar natur y pryder a'r unigolion dan sylw.
19. Os ydych yn teimlo, am ba reswm bynnag, na allwch fynegi'r mater i'ch Rheolwr, rhowch wybod am y mater wrth:

Y Pennaeth Gwasanaethau Pobl

20. Os byddwch am fynegi'r pryder yn gyfrinachol, cofiwch ddweud hynny ar y dechrau er mwyn i drefniadau priodol gael eu gwneud. Cynhelir trafodaeth â chi am y ffordd fwyaf priodol o ddelio â'r mater.
21. Os dilynwyd y sianeli hyn, a bod gennych bryderon o hyd, neu os ydych yn teimlo bod y mater mor ddifrifol fel na allwch ei drafod ag unrhyw un o'r uchod, cysylltwch â:

Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro

Swyddog Adran 151

## Y MODD Y BYDDWN YN DELIO Â'R MATER

22. Bydd y Cyngor yn cydnabod bod eich pryder wedi dod i law cyn pen 10 niwrnod gwaith. Byddwn yn ei asesu ac yn ystyried pa gamau a allai fod yn briodol. Gallai hyn olygu adolygiad anffurfiol, ymholiad mewnol neu ymchwiliad mwy ffurfiol. Byddwn yn dweud wrthych pwy fydd yn delio â'r mater, sut y gallwch gysylltu â nhw a pha gymorth arall y bydd arnom ei angen gennych chi o bosibl, sut y bwriadwn ddelio ag ef, a byddwn yn rhoi amserlen ar gyfer adborth. Os ydym wedi camddeall y pryder neu os oes unrhyw wybodaeth ar goll, gofynnwn i chi roi gwybod i ni.
23. Pan fyddwch yn mynegi pryder, byddai'n ddefnyddiol gwybod beth, yn eich barn chi, fyddai'r ffordd orau o ddatrys y mater. Os oes gennych fuddiant personol yn y mater, gofynnwn i chi ddweud hynny wrthym ar y dechrau.
24. Os credwn fod eich pryder yn perthyn yn fwy priodol i un o'n polisiâu eraill (h.y. cwyn gyflogaeth) byddwn yn rhoi gwybod i chi.
25. Os cewch wahoddiad i gyfarfod i drafod eich pryderon, gall cynrychiolydd undeb llafur, neu gydweithiwr nad yw ynghlwm wrth y mater, ddod yn gwmni i chi.
26. Lle bydd hynny'n bosibl, byddwn yn rhoi adborth i chi ar ganlyniad yr ymchwiliad. Dylech nodi, fodd bynnag, efallai na fyddwn yn gallu dweud wrthych am yr union gamau a gymerwn os byddai hynny'n torri dyletswydd cyfrinachedd sydd arnom i berson arall. Bydd unrhyw adborth yn cael ei roi unol â chyfyngiadau Deddf Diogelu Data 2018.
27. Er na allwn warantu y byddwn yn ymateb i bob mater yn y ffordd y gallech ddymuno, byddwn yn ymdrechu i ddelio â'r mater mewn modd teg a phriodol. Drwy ddefnyddio'r polisi hwn, byddwch yn ein helpu ni i gyflawni hyn.

## CYNGOR ANNIBYNNOL

28. Os ydych yn ansicr a ddylech ddefnyddio'r polisi hwn neu os byddwch am gael cyngor cyfrinachol ar unrhyw adeg, gallwch gysylltu â'r elusen annibynnol, Protect trwy ffonio 020 31172520 neu anfon neges e-bost i'r cyfeiriad [info@protect-advice.org.uk](mailto:info@protect-advice.org.uk). Gallwch hefyd lenwi Ffurflen Gyswilt ar y wefan, [www.protect-advice.org.uk](http://www.protect-advice.org.uk). Gall cyfreithwyr yr elusen drafod y dewisiadau sydd gennych a'ch helpu i fynegi pryder am achos o gamymddwyn yn y gwaith.
29. Os ydych yn aelod o undeb llafur, gallwch hefyd gysylltu â'ch undeb i gael cyngor.

## CYSYLLTIADAU ALLANOL

30. Rydym yn gobeithio y bydd y polisi hwn yn rhoi'r sicrwydd y mae'i angen arnoch i fynegi eich pryder i ni yn fewnol ond yr ydym yn deall y bydd amgylchiadau lle gallech fynegi pryder mewn modd priodol i gorff allanol. Yn wir, byddai'n well gennym petaech yn codi mater gyda'r rheoleiddiwr priodol na pheidio â'i godi o gwbl. Bydd Public Concern at Work (neu eich undeb) yn gallu eich cynghori

ynghylch y cyfryw ddewis os ydych yn dymuno. Ceir manylion y Rheoleiddwyr Allanol o dan Orchymyn Datgelu er Lles y Cyhoedd (Personau Rhagnodedig) 2014 yn Atodiad 1. Os caiff y Rhestr hon ei diwygio gan deddfwriaeth yn y dyfodol, yna'r rhestr ddiwygiedig fydd yn gymwys.

31. Os byddwch yn mynd â'r mater y tu allan i'r Cyngor, dylech sicrhau na fyddwch yn datgelu gwybodaeth bersonol neu gyfrinachol.

#### **DEHONGLI'R CYNLLUN**

32. Mewn achos o anghydfod yn ymwneud â dehongli'r Polisi, Pennaeth y Gwasanaethau Pobl neu Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ar ddehongli.

#### **ADOLYGIAD O'R CYNLLUN**

33. Adolygir y polisi hwn pan fydd hynny'n briodol. Ymgynghorir â'r holl bartïon perthnasol ynghylch unrhyw newidiadau. Fodd bynnag, os bydd diwygiadau sy'n gysylltiedig â gofynion deddfwriaethol, bydd y Cynllun yn cael ei ddiwygio a'i ailgyhoeddi.

**MAI 2021**







## Gorchymyn Datgelu Er Budd y Cyhoedd (Personau Rhagnodedig) (Diwygio) (Rhif 2) 2015

Mae'r fersiwn hon mewn grym o: **Chwefror 2016** hyd heddiw

| Darlledu a Chyfathrebu                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <p><b>Y Swyddfa Gyfathrebiadau (a elwir yn Ofcom)</b></p> <p>Chairman<br/>The Office of Communications<br/>Riverside House<br/>2a Southwark Bridge Road<br/>Llundain<br/>SE1 9HA<br/>Ffôn: 020 7981 3000 Ffacs: 020 7981 3333 Gwefan:<br/><a href="http://www.ofcom.org.uk/cymru/home">www.ofcom.org.uk/cymru/home</a></p>                                                                     | <p>Cysylltwch â nhw ynghylch</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• darparu rhwydweithiau a gwasanaethau cyfathrebu electronig,</li> <li>• darlledu a darparu gwasanaethau teledu a radio</li> <li>• perchnogi a rheoli'r cyfryngau,</li> <li>• cystadleuaeth mewn marchnadoedd cyfathrebu.</li> </ul> |
| Busnes, cyllid neu dwyll                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |
| <p><b>Comisiwn Cyfrifon yr Alban</b></p> <p>The Secretary to the Accounts Commission<br/>Accounts Commission for Scotland<br/>102 West Port<br/>Caeredin<br/>EH3 9DN<br/>Ffôn: 0131 625 1500<br/>E-bost: <a href="mailto:corrspondence@audit-scotland.gov.uk">corrspondence@audit-scotland.gov.uk</a><br/>Gwefan: <a href="http://www.audit-scotland.gov.uk">www.audit-scotland.gov.uk</a></p> | <p>Cysylltwch â nhw ynghylch cynnal busnes cyhoeddus yn briodol, gwerth am arian, twyll a llygredigaeth mewn cyrff llywodraeth leol yn yr Alban.</p>                                                                                                                                                         |

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |                                                                                                                                                                                                    |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <p><b>Archwilydd Cyffredinol Cymru</b><br/> Swyddog PIDA<br/> Archwilydd Cyffredinol Cymru<br/> 24 Heol y Gadeirlan<br/> Caerdydd<br/> CF11 9LJ<br/> Ffôn: 02920 320522<br/> E-bost: <a href="mailto:chwythu.chwiban@archwilio.cymru">chwythu.chwiban@archwilio.cymru</a><br/> Gwefan: <a href="http://www.wao.gov.uk/cy/chwythur-chwiban">www.wao.gov.uk/cy/chwythur-chwiban</a></p>                                 | <p>Cysylltwch â nhw ynghylch cynnal busnes cyhoeddus yn briodol, gwerth am arian, twyll a llygredigaeth mewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru.</p>                                                      |
| <p><b>Archwilydd Cyffredinol yr Alban</b><br/><br/> The Auditor General for Scotland<br/> 102 West Port<br/> Caeredin<br/> EH3 9DN<br/> Ffôn: 0131 625 1500<br/> E-bost: <a href="mailto:correspondence@audit-scotland.gov.uk">correspondence@audit-scotland.gov.uk</a><br/> Gwefan: <a href="http://www.audit-scotland.gov.uk/contact-us/whistleblowing">www.audit-scotland.gov.uk/contact-us/whistleblowing</a></p> | <p>Cysylltwch â nhw ynghylch cynnal busnesau cyhoeddus yn briodol yn yr Alban, gan gynnwys gwerth am arian, twyll a llygredigaeth mewn perthynas â darparu gwasanaethau cyhoeddus yn yr Alban.</p> |
| <p><b>Audit Scotland</b><br/><br/> Audit Scotland<br/> 102 West Port<br/> Caeredin<br/> EH3 9DN<br/> Ffôn: 0131 625 1500<br/> E-bost: <a href="mailto:correspondence@audit-scotland.gov.uk">correspondence@audit-scotland.gov.uk</a><br/> Gwefan: <a href="http://www.audit-scotland.gov.uk/contact-us/whistleblowing">www.audit-scotland.gov.uk/contact-us/whistleblowing</a></p>                                    | <p>Cysylltwch â nhw ynghylch cynnal busnesau cyhoeddus yn briodol yn yr Alban, gan gynnwys gwerth am arian, twyll a llygredigaeth mewn cyrff cyhoeddus yn yr Alban.</p>                            |

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <p><b>Banc Lloegr</b></p> <p>Bank of England<br/>Intelligence and Whistleblowing Team<br/>Threadneedle Street<br/>Llundain<br/>EC2R 8AH<br/>Ffôn: 020 3461 8703<br/>E-bost: <a href="mailto:whistleblowing@bankofengland.co.uk">whistleblowing@bankofengland.co.uk</a></p>                                                                                             | <p>Cysylltwch â nhw ynghylch:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gweithrediad systemau clirio (gan gynnwys partion i gontract canolog)</li> <li>• systemau talu a systemau setlo gwarannau</li> <li>• trin, dal a chyhoeddi papurau banc gan fanciau'r Alban a Gogledd Iwerddon a awdurdodwyd i gyhoeddi papurau banc (a'u cynrychiolwyr)</li> <li>• cadw, dosbarthu a phrosesu papurau banc Banc Lloegr o dan Gynllun Banc Lloegr ar gyfer Cylchredeg Papurau Banc.</li> <li>• darparu gwasanaethau sy'n ymwneud â systemau talu.</li> </ul> |
| <p><b>Comisiynydd Safonau Moesegol mewn Bywyd Cyhoeddus yn yr Alban</b></p> <p>Commissioner for Ethical Standards in Public Life in Scotland<br/>Thistle House<br/>91 Haymarket Terrace<br/>Caeredin<br/>EH12 5HE<br/>Ffôn: 0300 011 0550<br/>E-bost: <a href="mailto:info@ethicalstandards.org.uk">info@ethicalstandards.org.uk</a></p>                               | <p>Cysylltwch â nhw os tybiwch fod cynghorydd awdurdod lleol neu aelod o fwrdd corff cyhoeddus datganoledig yn yr Alban wedi gweithredu mewn modd sy'n torri'r cod ymddygiad perthnasol.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |
| <p><b>Comisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM)</b></p> <p>Llinell Gymorth Twyll CThEM<br/>Caerdydd<br/>CF14 5ZN<br/>Ffôn: 0800 788 887<br/>Gwefan: <a href="https://www.gov.uk/government/organisations/hm-revenue-customs/contact/reporting-tax-evasion">https://www.gov.uk/government/organisations/hm-revenue-customs/contact/reporting-tax-evasion</a></p> | <p>Cysylltwch â nhw ynghylch</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gweinyddu trethi'r Deyrnas Unedig</li> <li>• gweinyddu'r systemau yswiriant gwladol a chredydau treth</li> <li>• tollau a swyddogaethau cysylltiedig â ffiniau</li> <li>• ymchwiliadau troseddol.</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                  |

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <p><b>Y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol</b></p> <p>The Comptroller and Auditor General<br/>National Audit Office<br/>157-197 Buckingham Palace Road<br/>Llundain<br/>SW1W 9SP<br/>Ffôn: 020 7798 7999<br/>Gwefan: <a href="https://www.nao.org.uk/contact-us/whistleblowing-disclosures/">https://www.nao.org.uk/contact-us/whistleblowing-disclosures/</a></p> | <p>Cysylltwch â nhw ynghylch cynnal busnes cyhoeddus yn briodol, gwerth am arian, twyll a llygredigaeth mewn perthynas â darparu gwasanaethau cyhoeddus.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |
| <p><b>Cyfarwyddwr y Swyddfa Twyll Difrifol</b></p> <p>The Director of the Serious Fraud Office<br/>2 - 4 Cockspur Street<br/>Llundain<br/>SW1Y 5BS</p> <p>E-bost: <a href="https://www.sfo.gov.uk/contact-us/reporting-serious-fraud-bribery-corruption">https://www.sfo.gov.uk/contact-us/reporting-serious-fraud-bribery-corruption</a></p>                     | <p>Cysylltwch â nhw ynghylch twyll difrifol neu gymhleth, gan gynnwys llwgrwobrwyo a llygredigaeth, yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac adennill enillion ymddygiad anghyfreithlon trwy'r broses sifil.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |
| <p><b>Awdurdod Gwarannau a Marchnadoedd Ewrop</b></p> <p>Gwefan: <a href="http://www.esma.europa.eu/whistleblowers-corner">www.esma.europa.eu/whistleblowers-corner</a></p>                                                                                                                                                                                       | <p>Materion sy'n ymwneud ag:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymgymeriadau ar gyfer Buddsoddi ar y Cyd mewn Gwarannau Trosglwyddadwy (UCITS): cydymffurfedd â Chyfarwyddeb 2009/65/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 13 Gorffennaf 2009 ynghylch cydlynu cyfreithiau, rheoliadau a darpariaethau gweinyddol sy'n ymwneud ag ymgymeriadau ar gyfer cyd-fuddsoddi mewn gwarannau trosglwyddadwy</li> <li>• ystorfeydd masnach: cynnal ystorfeydd masnach a reolir gan Reoliad (EU) Rhif 648/2012 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 4 Gorffennaf 2012 ar ddeilliadau OTC, partion i gontractau canolog ac ystorfeydd masnach.</li> </ul> <p>CRA: ymddygiad personau sy'n asiantaethau statws credyd a gofrestrwyd o dan Bennod 1 o Deitl 3 o Reoliad (EC) Rhif 1060/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 16 Medi 2009 neu sydd wedi'u hardystio yn unol ag Erthygl 5(2) o'r rheoliad hwnnw.</p> |

## Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA)

The Financial Conduct Authority  
Intelligence Department (ref PIDA)  
12 Endeavour Square, Llundain  
E20 1JN

Ffôn: 020 7066 9200 Ffacs: 020 7676 9727

E-bost: [whistle@fca.org.uk](mailto:whistle@fca.org.uk)

Gwefan: [www.fca.org.uk/site-info/contact/whistleblowing](http://www.fca.org.uk/site-info/contact/whistleblowing)

## Materion yn ymwneud â

- chynnal cronfeydd, marchnadoedd, cwmnïau ac unigolion sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000, gan gynnwys banciau, cymdeithasau adeiladu, busnesau credyd defnyddwyr a buddsoddiadau neu yswiriant
- cystadleuaeth sy'n effeithio ar farchnadoedd ariannol yn y Deyrnas Unedig ac yn ymwneud â gweithrediad cymdeithasau cydfuddiannol sydd wedi'u cofrestru gan FCA o dan y ddeddfwriaeth berthnasol
- ymddygiad cyhoeddwr arian electronig (at ddibenion Rheoliadau Arian Electronig 2011)
- ymddygiad Darparwyr Gwasanaethau Talu (at ddibenion y Rheoliadau Gwasanaethau Talu)
- gweithrediad Rheolwyr Cronfeydd Buddsoddi Amgen bach yn y Deyrnas Unedig sydd wedi'u cofrestru o dan reoliad 10 o Reoliadau Rheolwyr Cronfeydd Buddsoddi Amgen 2013
- gweithrediad marchnadoedd ariannol
- gwyngalchu arian, troseddau ariannol, a chamymddwyn ariannol difrifol arall mewn cysylltiad â gweithgareddau a reoleiddir gan FCA.
- ymddygiad sefydliadau hunanreoleiddio (mewn perthynas â rheoliad 2 o Reoliadau Goruchwyllo Gwrth-wyngalchu Arian a Chyllido Terfysgwyr ymhlith Cyrff Proffesiynol 2017)
- ymddygiad personau sy'n gyfranwyr a oruchwylir yng nghwmpas ystyr Erthygl 3(1)(10) o Reoliad (EU) rhif 2016/1011 ar fynegeion a ddefnyddir fel meincnodau mewn offerynnau ariannol a chontractau ariannol neu i fesur perfformiad cronfeydd buddsoddi
- ymddygiad personau sy'n bersonau BM Amrywiol yn ystyr rheoliad 5(2) o Reoliadau Deddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 (Meincnodau) 2018
- ymddygiad personau sy'n ddarostyngedig i'r swyddogaethau a roddwyd i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol o dan Reoliad (EU) Rhif 648/2012 ar ddeilliadau OTC, partiön i gontractau canolog ac ystorfeydd masnach.

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <p><b>Y Cyngor Adrodd Ariannol Cyfyngedig a'i Bwyllgor Ymddygiad</b></p> <p>PIDA Officer<br/> Financial Reporting Council<br/> 8th Floor<br/> 125 London Wall<br/> Llundain EC2Y 5AS<br/> Ffôn: 0207 492 2497<br/> E-bost: <a href="mailto:whistleblowing@frc.org.uk">whistleblowing@frc.org.uk</a><br/> Gwefan: <a href="http://www.frc.org.uk">www.frc.org.uk</a></p> | <p>Cysylltwch â nhw ynghylch materion sy'n ymwneud â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Archwilio Statudol yn y Deyrnas Unedig (gan gynnwys goruchwyllo, monitro a gorfodi)</li> <li>• goruchwyliaeth annibynnol ar gyfer y proffesiynau cyfrifyddu ac actiwaraidd</li> <li>• cymdymffurdedd â gofynion deddfwriaeth cyfrifyddu a rhoi adroddiadau</li> <li>• ymchwiliadau a chamau gorfodi mewn perthynas ag ymddygiad cyfrifwyr ac actiwariaid a chamau disgyblu mewn achosion lles y cyhoedd</li> <li>• goruchwyllo'r ddarpariaeth archwilio leol, monitro archwiliadau lleol o bwys ac ymchwiliadau a chamau gorfodi mewn perthynas ag ymddygiad archwilwyr lleol mewn achosion lles y cyhoedd</li> <li>• goruchwyliaeth annibynnol ar gyfer y Cyfrifydd Cyffredinol</li> <li>• Archwilwyr Trydydd Gwledydd.</li> </ul> |
| <p><b>Yr Arglwydd Adfocad, Yr Alban</b></p> <p>Procurator Fiscal Specialist Casework<br/> Crown Office<br/> 25 Chambers Street<br/> Caeredin<br/> EH1 1LA<br/> Ffôn: 0300 020 0457 E-bost: <a href="mailto:SOCDADMINEast@copfs.gov.uk">SOCDADMINEast@copfs.gov.uk</a></p>                                                                                               | <p>Cysylltwch â nhw ynghylch twyll difrifol neu gymhleth yn yr Alban.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |
| <p><b>Y Rheoleiddiwr Systemau Talu</b></p> <p>Payment Systems Regulator<br/> Intelligence Department (Ref PIDA)<br/> 12 Endeavour Square<br/> Llundain<br/> E20 1JN Ffôn: 020 7066 9200<br/> E-bost: <a href="mailto:whistle@fca.org.uk">whistle@fca.org.uk</a></p>                                                                                                     | <p>Cysylltwch â nhw ynghylch systemau talu a'r gwasanaeth a ddarperir ganddynt.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |                                                                                                                                                                                                  |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
